

Y daith i Brydain

Gwers 2 o 4 am y Kindertransport

Nodiadau i Athrawon

Wrth ffoi ar draws Ewrop i ddianc rhag y Natsïaid, cyrhaeddodd tua 10,000 o blant Iddewig ym Mhrydain rhwng Rhagfyr 1938 a Mai 1940 ar y *Kindertransport* (Trafnidiaeth Plant). Roedd yn rhaid i'r mwyafrif ohonyn nhw deithio heb eu rhieni ac aelodau eraill o'r teulu. Daeth nifer ohonyn nhw i Gymru. I gael gwybodaeth am *Kindertransport*, gweler

<https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/kindertransport-1938-40>.

Yn y casgliad hwn o adnoddau, rydym yn archwilio rhai o straeon y ffoaduriaid a oedd yn blant yn teithio ar y *Kindertransport* i Gymru.

Mae'r ail wers hon yn archwilio taith *Kindertransport* merch ifanc o Awstria, Dorothy Fleming. Mi wnaeth hi'r siwrnai hon i Brydain ym 1938 cyn ymgartrefu, yn y bon, gyda'i theulu yng Nghaerdydd.

Dyma sesiwn 2 o 4 i'w defnyddio ar y cyd â'r adnoddau eraill. Mae'n rhagdybio dealltwriaeth sylfaenol o'r Holocaust. Efallai yr hoffech chi gwmpasu taflen waith Ymddiriedolaeth Addysg yr Holocaust '[Diffinio'r Holocaust](#)' cyn cychwyn ar y set hon o bedair sesiwn.

Dolenni cwricwlwm

Cyfnod Allweddol 3

Hanes, Sgiliau llythrennedd

Cynllun Gwers

NODAU DYSGU

- Deall ystyr y term 'ffoadur'.
- Myfyrio ar brofiadau ffoaduriaid plant Iddewig a'r rôl a chwaraeodd y *Kindertransport*.
- Ymgysylltu ag ystod o ffynonellau hanesyddol i greu ymateb personol a chreadigol.

O.N. Os oes gennych fyfyrwyr yn eich grŵp sy'n ffoaduriaid eu hunain neu wedi profi sefyllfa heriol debyg, efallai y bydd angen i chi addasu'r wers hon yn unol â hynny er mwyn ystyried eu profiadau ac o bosib, atgofion poenus.

OFFER SYDD EI ANGEN

- Darnau mawr o bapur ac offer ysgrifennu.
- Deunyddiau celf (os ydych chi'n dewis yr opsiwn hwn).
- Trawsgrifiadau o'r clipiau sain.¹

I DDECHRAU

Sut mae diffinio'r gair 'ffoadur'?

Gwylwch un munud cyntaf yr animeiddiad [Who is a Refugee?](#) gan Asiantaeth Ffoaduriaid y Cenhedloedd Unedig. Gofynnwch i'r dosbarth lunio diffiniad ar gyfer 'ffoadur' sy'n pwysleisio'r gwahaniaeth rhwng ffoaduriaid ac ymfudwyr economaidd. Gallant wneud hyn mewn grwpiau bach yn gyntaf, yna, ymlaen i ysgrifennu diffiniad fel dosbarth ar y bwrdd gwyn neu ar ddarn mawr o bapur.

DATBLYGIAD O'R SESIWN

Dechreuwch gan grynhoi stori Dorothy Fleming o'r sesiwn ddiwethaf. Gallwch chi ddosbarthu eu taflenni gwaith gorffenedig gan efallai, gofyn iddynt farcio gwaith ei gilydd a / neu lunio enghraifft. Gofynnwch i'r grwpiau drafod mewn parau pam y gallai bod Iddewon o'r Almaen ac o Awstria wedi troi'n ffoaduriaid yn y 1930au. Rhannwch bwyntiau trafod gyda'r dosbarth cyfan a chyfeiriwch yn ôl at ddiffiniad y dosbarth o ffoadur pan fo angen.

Esboniwch i'r dosbarth yr oedd Dorothy a'i chwaer ymhlith 10,000 o blant a ddaeth i Brydain ar y *Kindertransport* a oedd yn teithio ar eu pennau eu hunain, heb eu rhieni.

[Yna gwrandewch ar adroddiad Dorothy o'r siwrnai a wnaeth ar *Kindertransport*.](#)

¹ Fe wnaethon ni ychwanegu trawsgrifiadau'r clipiau sain. Gallwch ddewis eu rhannu gyda'ch myfyrwyr os credwch y byddai'n ddefnyddiol. Mae'r trawsgrifiadau yn Saesneg a Chymraeg tra bo'r clipiau sain yn Saesneg yn unig.

Rhannwch y [llun o Dorothy a'i chwaer ym 1938](#) (cyn eu taith) a'r [ffotograff o Kindertransportees yn cyrraedd Prydain](#).

PRIF RAN

Rhannwch y dosbarth yn bedwar grŵp. Rhoddir un o'r bobl ganlynol i bob grŵp i ganolbwyntio arno:

Grŵp 1: Dorothy

Grŵp 2: Chwaer Dorothy

Grŵp 3: Bachgen gyda'r Oriawr Aur

Grŵp 4: Plant yn y Ffotograff wrth gyrraedd Harwich (os oes gennych chi ddosbarth mwy ac angen mwy o grwpiau, yna dewisiwch blant unigol o'r llun hwn a chynyddwch y nifer o grwpiau yn unol â hynny).

Gofynnwch i'r grwpiau i ysgrifennu rhai ansoddeiriau ar ddarn mawr o bapur i ddisgrifio sut y gallai'r person a neilltuwyd iddynt fod yn teimlo yn ystod y daith. Anogwch iddynt gysidro ystod o emosiynau e.e. 'dewr' a 'cyfrifol' yn ogystal ag 'ofn'. Rhwng y grwpiau, dylech gael ystod o ymatebion ar gyfer yr holl blant gwahanol yn y straeon. Rhowch adborth i'r grwpiau a rhannwch ymatebion pob grŵp gyda'r dosbarth cyfan.

Gan ddefnyddio'r ymatebion a gasglwyd, bydd y myfyrwyr yn ysgrifennu darn o waith creadigol o'r enw 'Y Siwrnai Kindertransport' i archwilio rhai o'r profiadau y gallai'r plant fod wedi bod yn mynd drwyddynt ar y trê. Gall hyn fod ar ffurf rhyddiaith neu gerdd fer. Er mwyn ymbellhau o'r maes pwnc heriol hwn, dylai'r myfyrwyr ysgrifennu yn y trydydd person fel tasent yn 'bryf ar y pared' yn hytrach nag o safbwynt y Kindertransportees eu hunain. Efallai y bydd gennych chi hefyd rai myfyrwyr a allai fod eisiau dychmygu'r siwrnai trê mewn ffordd artistig, efallai gan dynnu llun neu baentio gan ddefnyddio'r un teitl. Anogwch ystod o ymatebion creadigol unigol yma gan ddefnyddio gwahanol gyfryngau a deunyddiau.

SESIWN LAWN

Crynhwch a myfyriwch ar rai o'r ymatebion i'r dasg greadigol. Gofynnwch i'r myfyrwyr pam maen nhw'n meddwl bod y llywodraeth ond wedi gadael plant i mewn ar yr adeg honno.

Trawsgrifiad

[Pwy sy'n Ffoadur? Fideo UNHCR - 60 eiliad cyntaf](#)

Pwy sy'n Ffoadur?

Pobl gyffredin sy'n byw trwy gyfnodau anghyffredin yw ffoaduriaid. Mae gwrthdaro neu erledigaeth yn y wlad maent yn byw ynddo wedi eu rhoi mewn perygl. Does ganddynt ddim dewis arall ond ffoi a gadael eu gwlad i chwilio am loches. Mae hyn yn golygu gadael llawer ar eu holau. Un o'r penderfyniadau anoddaf y gall rhywun ei wneud erioed.

Felly, beth sy'n gwneud person yn ffoadur? Mae ffoaduriaid yn unigolion sydd bellach thu hwnt i'w gwlad eu hunain ac wedi croesi o leiaf un ffin. Gall gwrthdaro parhaus eu rhoi mewn perygl os byddant yn dychwelyd. Neu maen nhw mewn perygl o gael eu herlid oherwydd eu cenedligrwydd, hil, neu gyfeiriadedd rhywiol neu oherwydd eu bod nhw'n cysylltu â chrefydd, grŵp cymdeithasol, neu farn wleidyddol. Mae rhai yn cael eu carcharu neu eu niweidio'n gorfforol neu'n feddyliol.

Dorothy Fleming: Taith ar y Kindertransport

Nid ydym yn hollol siŵr sut wnaeth fy rhieni glywed am y Kindertransport, oherwydd nad oeddent “o gwmpas”, ond rydym yn credu bod rhaid bod y gymuned Iddewig wedi defnyddio pobl ifanc fel Boy Scouts i fynd i gartrefi lle roeddent yn gwybod bod teuluoedd â phlant ac esbonio iddynt bod y cyfle hwn yn bodoli. Ac mewn gwirionedd, mae’r ffurflenni cais gennym ni - dau - un i mi, ac yn fuan wedi hynny, un ar gyfer fy chwaer a minnau.

[...]

Fe wyddoch bod pwyllgorau wedi cael eu ffurfio yma ledled y wlad - rhai Iddewig a rhai oedd ddim yn Iddewig - i geisio dod o hyd i lefydd i’r plant i fynd, gan bod y llywodraeth wedi dweud y byddent yn derbyn 10,000 o blant Iddewig a fyddai heb gydymaith gyda nhw.

[...]

Ac felly, roedd fy rhieni’n barod i’n hanfon ni, i’r wlad hon, yn hyderus y byddent yn ein dilyn.

[...]

Felly, cawsom le a mi wnaethom ni adael ar y 10fed o Ionawr am Loegr ac mewn gwirionedd, mae hwnnw’n stori ddramatig iawn. Fy rhieni... roeddem ni, roeddem ni’n cael un bag o eiddo yr un, ac fe aethon nhw â ni i’r Western Railway Station gyda’r nos – roedd hi wastad yn ystod y nos - ac roedden nhw’n gall iawn, roedden nhw’n ffarwelio, ac roedden nhw ar fin gadael. Ond roeddwn yn gwybod bod llawer o bobl wedi torri eu calonau, a rhai hyd yn oed yn cipio eu plant yn ôl; nid oedden nhw’n medru gadael iddynt fynd. Ond fe aethon ni i mewn i gerbyd a oedd yn gymharol llawn o blant, a rhyngom ni, mi benderfynodd y rhai hŷn y byddai’r rhai iau yn mynd ar y rac bagiau, a oedd wedi’i wneud o rwydenni; gan y byddent yn fwy cyfforddus i fyny yno. Felly, fe wnaethom ni roi fy chwaer fach i fyny yno, ac yn sydyn iawn, roedd hi’n sâl; a oedd yn ddefnyddiol iawn mewn gwirionedd, oherwydd roeddwn i’n brysur iawn dros yr hanner awr ganlynol, a dywedodd fy rhieni “edrych ar ôl dy chwaer, mae’n rhaid i ni fynd nawr, ac mi wnawn ni eich dilyn chi yn fuan. Ta-ra,” ac i ffwrdd â nhw, a oedd yn gall iawn. Ac yn wir, fe wnaethant ddilyn yn y pen draw.

Nawr, mi gychwynnodd y daith gyda sion ledled y trênnau y byddai’r Natsïaid yn dod i archwilio ein papurau a’n bagiau yn fuan, ar ôl cyrraedd y ffin. Os byddent yn dod o hyd i unrhyw beth na ddylem ni fod wedi dod gyda ni, efallai y byddem ni’n cael ein hanfon yn ôl neu byddai helynt. Ac nid sion oedden nhw, roedd y straeon yn wir, ac yn ein plith, roedd llanc ifanc tua un ar ddeg, a oedd wedi cael oriau aur ei teulu gan ei dad – watsh boced - ac mi wnaeth banicio’n llwyr wrth feddwl y byddai’r Natsïaid yn darganfod y watsh. Felly, fe ollyngodd y watsh drwy agoriad cul mewn awyrydd, ac ni ddaethon nhw o hyd iddo, ac fe wnaethom ni groesi’r ffin ar ôl cael ein harchwilio ac fe wnaethom ni i gyd anadlu ochenaid fawr o ryddhad, oherwydd roedd yn frawychus iawn. Ac, wrth gwrs, o’r eiliad honno ymlaen roedd

yn ffidlan o gwmpas yn ceisio cael yr oriawr allan, ac ni wnaeth lwyddo. Ac rwy'n cofio dweud wrtho, gyda fy holl ddoethineb yn ddeg mlwydd a hanner, "Edrycha, dim ond watsh ydy o. Bydd dy dad yn hapus iawn dy fod di wedi goroesi." Ond roedd o mewn gofid enfawr. Rwy'n credu mai'r rheswm iddo gael yr watsh oedd yn rhannol fel, fel trysor teuluol, ond hefyd, byddai ei dad wedi meddwl efallai y gallai werthu'r watsh ac efallai byw oddi ar y pres. Mae yna hefyd luniau o, o blant a ddaeth gyda ffidil - eto, efallai yn rhannol er mwyn eu gwerthu, yn rhannol i wneud bywoliaeth.